**Cyfeirnod:** IR782

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Gorffennaf 2021

# Cyngor cyfreithiol - Archwilio llywodraethiant a phenderfyniadau'r Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 25 Mehefin 2021 am weld y cyngor cyfreithiol a gafodd Archwilio Cymru ar bwyntiau cyfreithiol yn ymwneud â'r ddogfen ddrafft 'Cyngor Sir Penfro:  Cyngor cyfreithiol - Archwilio llywodraethiant a phenderfyniadau'r Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr

Rwyf o'r farn bod y wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i heithrio yn rhinwedd 42(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n darparu eithriad ar gyfer datgelu gwybodaeth sy'n destun braint broffesiynol gyfreithiol.

Rwyf wedi ystyried diddordeb y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth. Rwyf o'r farn y byddai datgelu er budd y cyhoedd i ryw raddau, o ystyried rôl gwaith archwilio wrth graffu ar y defnydd o arian cyhoeddus, gan gynnwys a fyddai hyn yn trafod cyhoeddus ymhellach, ac yn cynyddu atebolrwydd a thryloywder ynghylch defnyddio arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae diddordeb cyhoeddus cryf iawn mewn diogelu braint broffesiynol gyfreithiol. Mae'r cysyniad o gleientiaid sy'n gallu gohebu'n rhydd â chyfreithwyr, lle bo angen, yn hollbwysig i weinyddu cyfiawnder yn ehangach. Rwyf felly wedi dod i'r casgliad bod cydbwysedd budd y cyhoedd yn golygu y dylid cynnal yr eithriad a ddarperir gan adran 42(1).

Os ydych chi'n anfodlon gyda'r ffordd y deliodd eich cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol.  Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiadau mewnol at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@audit.wales neu drwy'r post i Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Gofynnwn i chi roi'r cyfeirnod IR782 yn llinell bwnc unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r cais hwn.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i gŵyn fel arfer nes bod y broses adolygu mewnol wedi'i dihysbyddu. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth